

JONES, DAVID JAMES ('Gwenallt'; 1899 - 1968), bardd, beirniad ac ysgolhaig

Enw: David James Jones

Ffugenw: Gwenallt

Dyddiad geni: 1899

Dyddiad marw: 1968

Priod: Nel Owen Jones (née Edwards)

Rhiant: Mary Jones (née Jones)

Rhiant: Thomas Jones

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: bardd, beirniad ac ysgolhaig

Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac leithoedd

Awdur: Brynley Francis Roberts

Ganwyd 18 Mai 1899, ym Mhontardawe, Morgannwg, yr hynaf o dri phlentyn Thomas ('Ehedydd') Jones a'i wraig Mary. Hanai ei rieni o Sir Gaerfyrddin ac yr oedd ei ymwybod â'i wreiddiau yn elfen bwysig yn ei bersonoliaeth, fel y gwelir o'i ysgrif ar 'Y Fro: Rhydycymerau' yng nghyfrol deyrnged [D. J. Williams](#) (gol. [J. Gwyn Griffiths](#), 1965). Symudodd y teulu i'r Allt-wen ac addysgwyd Gwenallt mewn ysgolion lleol ac yna yn ysgol sir Ystalyfera (lle y bu [Kate Roberts](#) yn athrawes arno am ychydig). Bu'n ddisgybl-athro yn 1916-17 gan rannu'i amser rhwng ysgol elfennol Pontardawe a chweched dosbarth yr ysgol sir, ond pan wysiwyd ef i'r fyddin cyn sefyll ei arholiad Tystysgrif Uwch, safodd yn wrthwynebydd cydwybodol ar dir gwleidyddol a threuliodd ddwy flynedd, o Fai 1917 hyd Fai 1919, yng ngharchardai Wormwood Scrubs a Dartmoor. Aeth i Goleg Prifysgol Cymru Aberystwyth yn 1919, a hynny ar adeg ddisglair yn hanes cymdeithasol y sefydliad hwnnw. Yno y cyfarfu ag [Idwal Jones](#) y lluniodd gofiant iddo yn 1958. Wedi graddio yn y Gymraeg a'r Saesneg penodwyd ef yn athro Cymraeg yn ysgol sir y Barri ac yna, yn 1927, yn ddarlithydd yn Adran Gymraeg Coleg Prifysgol Cymru. Dyrchafwyd ef yn uwch-ddarlithydd ac yn Ddarllenydd (y cyntaf i'w benodi i'r raddfa newydd honno yng Ngholeg Aberystwyth). Ymddeolodd yn 1966. Enillodd radd M.A. yn 1929 a dyfarnwyd gradd D.Litt. honoris causa iddo gan Brifysgol Cymru yn 1967. Priododd Nel Edwards yn 1937 a bu iddynt un ferch. Bu farw yn Ysbyty Aberystwyth 24 Rhagfyr 1968.

Ei faes ymchwil cyntaf oedd Bucheddau'r Saint a rhethreg yn ysgolion y beirdd yn niwedd yr Oesoedd Canol (gweler *Yr Areithiau Prôs*, 1934), ac er iddo gyhoeddi astudiaethau megis *Y Ficer Prichard a 'Canwyll y Cymry'* (1946), *Blodeugerdd o'r ddeunawfed ganrif* (1936, 1947), fel hanesydd llên y 19fed ganrif y mae'n fwyaf adnabyddus fel ysgolhaig. Yn ogystal â lliaws o erthyglau ar feirdd unigol, cyhoeddodd *Detholiad o ryddiaith Gymraeg R. J. Derfel* (1945), *Bywyd a gwaith Islwyn* (1948), *Y Storm: dwy gerdd gan Islwyn* (1954). Fel bardd a llenor, er hynny, y gwnaeth ei gyfraniad mwyaf. Yr oedd yn un o aelodau cyntaf Yr Academi Gymraeg ac ef oedd golygydd cyntaf ei chylchgrawn *Taliesin* hyd 1964 (cyfrol 9). Ei dad oedd ei athro cyntaf a bwriadodd ei brentisiaeth mewn eisteddfodau lleol ac yn y coleg. Enillodd ei awdl 'Y Mynach' gadair Eisteddfod Genedlaethol Abertawe (1926), ac er cydnabod ei awdl 'Y Sant' yn orau yn Eisteddfod Genedlaethol Treorci (1928) ni ddyfarnwyd y gadair iddo. Cyhoeddwyd y ddwy awdl mewn llyfryn yn 1928. Enillodd gadair Eisteddfod Genedlaethol Bangor

yn 1931 ag awdl ' Breuddwyd y Bardd '. Clywid llais mwy personol yn mynegi ei argyhoeddiadau cryfion, ei ymagwedd at fywyd a dyfnder ei bersonoliaeth yn y cerddi, y sonedau a'r cerddi hirion sydd yn ei gyfrolau, *Ysgubau'r Awen* (1939), *Cnoi Cil* (1942), *Eples* (1951), *Gwreiddiau* (1959), *Y Coed* (1969). Ynddynt gwelir ei ymlyniad at Gymru a'i diwylliant, a'i fyfyrddod ynghylch natur y drwg sydd yn y byd ac sy'n bygwth y gwareiddiad y mae'r bardd a'i genedl yn rhan ohono. Fel y datblygodd ei ganu, a'i ymateb i'r byd diwydiannol, materol ac i argyfwng Cymru 'n dwysáu, gwelir arddull ei ganu'n tyfu'n fwyfwy gerwin a digymrodedd. Nid mor llwyddiannus yw ei ddwy nofel, *Plasau'r Brenin* (1934) a *Ffwrneisiau* (1982) sy'n pwysu'n drwm ar ei brofiadau ef ei hun yn y carchar ac yn fachgen ar ei brifant yng Nghwm Tawe.

Ymhob dim a wnaî, credai Gwenallt fod rhaid iddo fod yn ymrwymedig ac o ddifrif. Yr oedd yn un o aelodau cynnar Plaid Cymru, yr oedd yn ymwybodol wleidyddol ac yn ymddiddori'n ddeallus ym mhynciau'r dydd (ffrwyth myfyrio ar brofiadau arteithiol ei ieuentid mewn cwm diwydiannol), a chafodd bererindod ysbrydol anodd ond gorfoleddus, fel y datguddiodd ef ei hun yn ei bennod yn *Credaf* (gol. J. E. Meredith, 1943).

Awdur

Dr Brynley Francis Roberts

Ffynonellau

Glyn Lewis Jones, *Llyfryddiaeth Ceredigion, 1600-1964* (Aberystwyth 1967), ii, 549, (1964-68), 137, rhestr o'i weithiau

Lynn Owen-Rees, *Cofio Gwenallt* (Llandysul 1978)

D. Gwenallt Jones, 'Rhai Atgofion', *Llais y Lli*, 25 Mai, 1966

Y Traethodydd, Ebrill 1969

Baner ac Amserau Cymru, Ionawr 1969

Yr Eurgrawn Wesleyaidd, Haf 1969

Dyfnallt Morgan, *D. Gwenallt Jones* (Caerdydd 1972)

J. E. Meredith, *Gwenallt Bardd Crefyddol, ynghyd ag ysgrif enwog Gwenallt, 'Credaf'* (Llandysul 1974)

Dafydd Rowlands, *Bro a bywyd Gwenallt (David James Jones), 1899-1968*, cyfres Bro a Bywyd

R. Iestyn Hughes, *Llyfryddiaeth Gwenallt / Gwenallt an annotated bibliography* (Aberystwyth 1983)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [D. Gwenallt Jones](#)

Sain a Ffilm

Archif ITV Cymru/Wales Archive: [Gwenallt](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [40296816](#)

Wikidata: [Q3399335](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

